CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU

Cyfarfod Is-Bwyllgor Cystadlaethau
Dydd Mawrth 22ain Mehefin 2021
ZOOM 7yh

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Court **IS-GADEIRYDD:** Miss Sian Healey

YN BRESENNOL: Katie Court (Cadeirydd y Pwyllgor), Kate Thomas (Morgannwg), Katie Matthews (Gwent), Emma Rees (Brycheiniog), Gwen Thomas (Eryri), Will Hughes (Ynys Môn), Elen Williams (Morgannwg) Elin Calan-Jones (Ceredigion), Katie Davies (Cadeirydd CFfI Cymru), Delun Evans (Sir Benfro), Anna Jones (Meirionnydd) Gwenno Davies (Clwyd), Millie Edwards (Maldwyn), Sian Healey (Is-Gadeirydd Cystadlaethau), Edna Jones (Trefnydd Sir Ynys Môn), Elizabeth Swancott (Maesyfed) Rhiannon Davies (Ceredigion), James Nixon (Maesyfed), Iestyn Owen (Sir Gâr), Caryl Haf (Is-Gadeirydd CFfI Cymru).

HEFYD YN BRESENNOL: Rhodri Lewis & Mared Jones – CFfI Cymru

C/74/2021 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd Katie Court bawb i gyfarfod is-bwyllgor Cystadlaethau am y flwyddyn CFfI 2020/2021.

Nodwyd fod gan bob Sir ddau gynrychiolwr gyda phleidlais. Fodd bynnag fe all fwy o aelodau fynychu ond dim ond dau fydd yn medru pleidleisio.

Esboniodd Katie fod y cyfarfod heno i drafod cystadlaethau'r dyfodol sef y Sioe Frenhinol Rhithiol, Cystadleuaeth Gwyl Penwythnos a Chalendr 2021-22.

C/75/2021 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: Fflur Powell-Roberts (Ynys Môn), Manon Williams (Meirionnydd), Tania Hancock (Sir Benfro), Sioned Caryl (Ceredigion). Esyllt Jones (Ceredigion) Sion Evans (Sir Gâr), Aled Thomas (Sir Gâr), Jamie Hughes (Maldwyn).

C/76/2021 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu rhannu ar y sgrin, eu darllen a'u cadarnhau i fod yn record wir a chywir.

Cynigydd: Delun Evans (Sir Benfro)
Eilydd: Sian Healey (Brycheiniog)

C/77/2021 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Esboniodd Katie Court y byddai cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn yn cael ei drafod o dan Gwyl Benwythnos yn pwynt C/79/2021.

C/78/2021 GOHEBIAETH

Ni dderbynwyd unrhyw ohebiaeth.

.

C/79/2021 I DRAFOD CYSTADLAETHU'R DYFODOL

a) Sioe Frenhinol Rhithiol 2021

Nododd Katie Court fod ceisiadau i'r Sioe Frenhinol Rhithiol wedi dod i mewn ac fe fydd diwrnod Barnu Stoc ar ddydd Sul 27ain Mehefin gyda'r amserlen wedi ei gylchredeg i'r Siroedd yn barod.

Nodwyd hefyd y byddai'r Siroedd yn derbyn yr Eitem Cynhwysyn i'r gystadleuaeth Goginio ar ddydd Mercher 23ain Mehefin.

b) Gwyl Benwythnos 2021

'Roedd y Pwyllgor wedi trafod yr Wyl Benwythnos wyneb yn wyneb yn y cyfarfod diwethaf o bwyllgor Cystadlaethau. Ar ol trafodaethau pellach, cytunwyd y byddai'r cystadlaethau Agri yn cael eu cynnal dros y penwythnos 14eg a 15fed o Awst 2021 ar Faes y Sioe yn Llanelwedd.

Nodwyd hefyd fod Cymdeithas Tynnu'r Gelyn Cymru wedi cael eu cysylltu ynglyn a dyddiadau ar gael ac fe 'roedd y penwythnos 14eg a 15fed yn rhydd gyda hwy. Cynnigwyd y byddai Cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn CFfI Cymru yn cael ei gynnal ar y penwythnos yma, hefyd yn Llanfair ym Muallt.

Cystadlaethau am y 14eg a 15fed Awst: Cneifio Defaid, Stocmon y Flwyddyn, Codi Ffens, Diogelwch Fferm a Tynnu'r Gelyn. Fe fydd ymweliad gyda Rheolwr y Safle yn cael ei gynnal am 9.00yb ar ddydd Mawrth 6ed Gorffennaf i drafod ymhellach.

Cynnigwyd y byddai Penwythnos Chwaraeon yn cael ei chynnal ar 11eg &/neu 12fed Hydref 2021 yn Aberystwyth. Fe fydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda Phrifysgol Aberystwyth. Cystadlaethau am y 11ed & 12fed Hydref: Criced Cyflym, Peldroed i ddynion, Pelrwyd a Neidio Rhaff i ferched.

Nodwyd hefyd y byddai rheolau'r cystadlaethau yn cael eu cylchredeg dros y pythefnos nesaf.

c) Cystadlaethau 2021-22

Eisteddfod – Nodwyd fod CFfI Brycheiniog yn hapus i westeio Eisteddfod 2021. Nodwyd hefyd ar ôl cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor Cystadlaethau, y trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y byddai CFfI Cymru yn edrych am 3 lleoliad parhaus i westeio'r Eisteddfod gyda un yn y Gogledd, un yn y Canolbarth ac un yn Ne Cymru. Gan gadw hyn mewn meddwl a CFfI Brycheiniog yn gwesteio, cynnigwyd i gynnal Eisteddfod 2021 yn Pafiliwn y Bont, Pontrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn 20fed Tachwedd 2021.

Adloniant – Nododd Katie Court fod Pwyllgor Cystadlaethau wedi cytuno i gynnal diweddglo'r Adloniant ar y 5ed a 6ed Mawrth 2022. Mae ICC yng Nghasnewydd wedi cynnig tâl o £8,000 yn cynnwys TAW am un diwrnod neu £5,000 y diwrnod am ddau ddiwrnod. Trafododd yr aelodau y ffi am y

lleoliad yma ac er iddynt gytuno fod hyn yn ardderchog, cynnigwyd y dylai CFfI Cymru edrych am safleoedd eraill a chymaru prisiau cyn dod yn ôl i'r pwyllor Cystadlaethau nesaf. Cytunwyd i edrych ar faint o arian a gododd CFfI Cymru yn ystod y penwythnos Pantomeim ddiwethaf.
Nodwyd y byddai'r Ffair Aeaf, Siarad Cyhoeddus a'r Sioe Frenhinol yn cael eu lleoli ar Faes y Sioe, Llanfair ym Muallt.

Nodwyd y byddai Diwrnod Maes 2022 yn cael ei westeio gan un o siroedd y Gogledd ac o edrych ar y Rota, Clwyd oedd i westeio yn 2020. Cynigwyd y dylai gofyn i Clwyd i westeio yn 2022 ac iddynt ddod o hyd i safle am y diwrnod.

Trafodwyd hefyd y Diwrnod Chwarae am 2022 ac fe gynigwyd y dylai gael ei gynnal yn Aberystwyth.

C/81/2021 EITEMAU AGENDA ITEMS A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

a) **Dyddiad y cyfarfod nesaf –** cafodd ei gadarnhau fel dydd Mawrth 27ain Gorffennaf 2021.

b) **Eitemau Agenda y cyfarfod nesaf i gynnwys:**
- Adborth o'r Sioe Frenhinol Rhithiol
- Rheolau - Cystadlaethau

C/82/2021 UNRHYW FUSNES ARALL

a) Dymunodd Katie Court atgoffa pawb am Gystadleuaeth Cywain, ac anogodd aelodau'r pwyllgor i ledaenu'r wybodaeth am y gystadleuaeth i'r aelodau yn eu Siroedd.

b) Nodwyd fod CFfI Maldwyn wedi siarad ar y mater o FfCCFfI ynglyn ag amrywiaeth oedran gyda oedran yr Aelodaeth yn codi i 28. Barn CFfI Maldwyn oedd i gael grŵpiau oedran 10-16, 17-22 a 23-28.

c) Gofynnwyd pam fod canlyniadau llawn Aelod Hŷn y Flwyddyn wedi eu cylchredeg eleni gan fel arfer dim on y tri cyntaf sy'n cael eu cylchredeg. Fe fydd CFfI Cymru yn edrych i mewn i hyn.

Gan nad oedd unrhyw fater arall yn codi, diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau ac fe orffenwyd y cyfarfod am 19.45yh.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....